Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (PANDY'R CAPEL, SIR DDINBYCH) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na saith niwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn, i osod wyneb newydd ar gefnffordd yr A494 i'r gogledd o Bandy'r Capel, Sir Ddinbych.

Disgwylir y daw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, i rym am 07:30 o'r gloch ar 3 Chwefror 2014 ac y byddant yn parhau mewn grym tan 18:00 o'r gloch ar 21 Chwefror 2014 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. Gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 300 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â'r B5429 hyd at bwynt 200 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Glawdd Newydd. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys.

ii. Gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir uchod yn ystod gwaith confoi.

iii. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn uchod. Caiff y ddarpariaeth hon ei chynnwys fel mesur wrth gefn ac, os bydd angen, bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw, pryd bynnag y bo'n bosibl, yn dangos y cyfnodau pan fydd y ffordd ar gau a bydd hyn yn para am gyfnodau o 20 munud ar y mwyaf. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A494 TRUNK ROAD (PANDY'R CAPEL, DENBIGHSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 to undertake resurfacing works on the A494 trunk road north of Pandy'r Capel, Denbighshire.

The prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 07:30 hours on 3 February 2014 and remain, as required, until 18:00 hours on 21 February 2014 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the proposed Order will be to temporarily:

i. Impose either a 40 mph or 10 mph speed limit on the length of the trunk road that extends from a point 300 metres south west of its junction with the B5429 to a point 200 metres north east of its junction with the unclassified road leading to Clawdd Newydd. The 10 mph speed limit will only apply when convoy working is in force.

ii. Prohibit all vehicles from overtaking in the length of the trunk road specified above during convoy working.

iii. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding in the length of the trunk road specified above. This provision is only included as a contingency and any such closures, if required, will, wherever possible, be indicated by advance traffic signs and will be for a maximum period of 20 minutes. No diversionary routes are necessary.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL
Transport, Welsh Government.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE